# Gweithio o fewn y cwricwlwm gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon ag asesu a gwerthuso'r lleoliad gwaith chwarae a sut mae plant a phobl ifanc yn defnyddio'r hyn sydd ar gael. Mae hefyd yn ymdrin â sut allech chi fyfyrio ar gyfoethogi eu profiadau a chyfleoedd chwarae.

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. arsylwi ar y lleoliad gwaith chwarae yn erbyn y cwricwlwm gwaith chwarae
2. gwerthuso'r lleoliad gwaith chwarae yn erbyn y cwricwlwm gwaith chwarae
3. gwneud gwelliannau mewn ymateb i'ch gwerthusiad

Mae'r safon hon ar gyfer staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad gwaith chwarae sydd â'r nod pennaf o ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae fel maen nhw'n dewis ac yn dymuno ei wneud. Mae'r safon hon ar gyfer staff sydd â rhywfaint o gyfrifoldeb am y lleoliad chwarae ac eraill sy'n gwneud cyfraniad mawr i gefnogi chwarae.

**Mae'r safon hon yn ategu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth fyfyrio. **

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Arsylwi ar y lleoliad gwaith chwarae yn erbyn y cwricwlwm gwaith chwarae**

1. arsylwi a chofnodi **prif agweddau ar y lleoliad gwaith chwarae**
2. arsylwi a chofnodi defnydd y plant a'r bobl ifanc o **brif agweddau ar y lleoliad gwaith chwarae**
3. arsylwi ar ddefnydd **eraill** o **brif agweddau ar y lleoliad gwaith chwarae**
4. derbyn a chofnodi adborth gan eraill yn y lleoliad gwaith chwarae

**Gwerthuso'r lleoliad gwaith chwarae yn erbyn y cwricwlwm gwaith chwarae**

5. gwerthuso **prif agweddau ar y lleoliad gwaith chwarae** yn erbyn y cwricwlwm gwaith chwarae
6. gwerthuso'r ffordd y mae'r plant a'r bobl ifanc yn defnyddio **prif agweddau ar y lleoliad gwaith chwarae** a myfyrio ar hyn
7. casglu adborth gan **eraill** ynglŷn â sut mae'r cwricwlwm gwaith chwarae yn cael ei roi ar waith yn y lleoliad gwaith chwarae
8. nodi pa brif agweddau ar y lleoliad gwaith chwarae y gellid eu cyfoethogi
9. defnyddio cofnodion yr arsylwadau i asesu faint o reolaeth sydd gan y plant a'r bobl ifanc dros newidiadau yn y lleoliad chwarae

**Gwneud gwelliannau mewn ymateb i'ch gwerthusiad*
*

---

**10. galluogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r adnoddau a nodwyd yn eich gwerthusiad

11. darparu lleoliad chwarae gwell ar sail y newidiadau a nodwyd yn eich gwerthusiad

12. rheoli'r gwaith o roi'r cwricwlwm chwarae ar waith yn unol â theorïau gwaith chwarae eraill

13. galluogi plant a phobl ifanc i gael rheolaeth dros newidiadau yn y lleoliad gwaith chwarae

14. cefnogi **eraill** i wella cydrannau o'r cwricwlwm gwaith chwarae

15. rhoi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod gwerthusiadau rheolaidd o'r cwricwlwm chwarae yn cael eu cynnal

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

*Arsylwi ar y lleoliad gwaith chwarae yn erbyn y cwricwlwm gwaith chwarae
*

---

***1. yr Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n rhan o fframwaith proffesiynol a moesegol gwaith chwarae a sut mae modd cymhwyso pob un o'r egwyddorion i'ch gwaith chi.***
***2. y cwricwlwm gwaith chwarae***
***3. pam mae'r cwricwlwm gwaith chwarae yn berthnasol i leoliad gwaith chwarae o ansawdd***
***4. sut i wahaniaethu rhwng* *prif agweddau ar y lleoliad gwaith chwarae**
5. rôl **eraill** i gefnogi'r cwricwlwm gwaith chwarae
6. pa ddulliau gwahanol y gellid eu defnyddio i arsylwi a chofnodi'n wrthrychol sut mae plant, pobl ifanc ac **eraill** yn defnyddio'r **prif agweddau ar y lleoliad gwaith chwarae**
7. y gwahanol ddulliau y gellir eu defnyddio i gael adborth gan blant a phobl ifanc
8. pwysigrwydd arsylwi a chofnodi adborth gan blant, pobl ifanc ac **eraill** yn y lleoliad gwaith chwarae
9. pryd mae'n briodol i ymgynghori â phlant a phobl ifanc am eu profiadau chwarae
10. sut i gydbwyso'r angen i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc heb amharu ar y broses chwarae

*Gwerthuso'r lleoliad gwaith chwarae yn erbyn y cwricwlwm gwaith chwarae
*

---

**11. sut i werthuso data a gasglwyd ar sail arsylwi ac adborth
12. yr offer a'r fframweithiau y gellir eu defnyddio i werthuso'r lleoliad gwaith chwarae yn erbyn y cwricwlwm gwaith chwarae
13. sut i fyfyrio gydag eraill ar y defnydd o'r cwricwlwm gwaith chwarae yn y lleoliad gwaith chwarae
14. pwysigrwydd datblygu proses ar gyfer cefnogi staff i arsylwi a chasglu adborth yn rheolaidd
15. pwysigrwydd asesu faint o reolaeth sydd gan y plant a'r bobl ifanc dros newidiadau yn y lleoliad gwaith chwarae

*Gwneud gwelliannau mewn ymateb i'ch gwerthusiad*
*

1. sut i alluogi plant a phobl ifanc i asesu'r adnoddau a nodwyd yn eich gwerthusiad
2. ffyrdd o gyfoethogi'r **prif agweddau ar y lleoliad gwaith chwarae** ag elfennau o'r cwricwlwm gwaith chwarae
3. y berthynas rhwng theorïau gwaith chwarae eraill a'r cwricwlwm gwaith chwarae
4. pwysigrwydd rhoi rheolaeth i blant a phobl ifanc dros newidiadau yn y lleoliad gwaith chwarae
5. cydrannau'r cwricwlwm gwaith chwarae a sut i gefnogi **eraill** i'w gwella
6. lle gellir cael cymorth ac adnoddau i roi gwelliannau ar waith
7. mecanweithiau y gellir eu defnyddio i gynnal gwerthusiadau rheolaidd o'r cwricwlwm gwaith chwarae
8. pwysigrwydd y broses o asesu, gwerthuso a gweithredu

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Prif agweddau ar y lleoliad gwaith chwarae**

1. elfennaidd
2. profiadau
3. hyblyg
4. adeiladol

**Eraill**

1. staff
2. rhieni a / neu ofalwyr

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth